WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 110A2017

Mae’r ddogfen hon wedi’i pharatoi fel rhan o waith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn dweud beth yw'r drefn wrth ymdrin â cheisiadau y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Gyda golwg ar y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@audit.wales.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Tim Buckle, Alison Lewis a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith clir ac effeithiol ar gyfer sicrhau newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau ond mae cyfleoedd i gryfhau trefniadau ymhellach.


Adroddiad Cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir a set o egwyddorion yn sail i'w ddulliau newid gwasanaethau, sy'n gysylltiedig â'r gwaith o wireddu ei flaenoriaethau 6

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newid mewn gwasanaethau wedi'u diffinio'n glir ac yn ddealladwy 7

Tra bod y Cyngor yn gallu dangos bod opsiynau wedi'u gwerthuso'n fanwl ar gyfer rhai prosiectau newid gwasanaethau, nid yw Aelodau bob amser yn derbyn ystod eang o opsiynau, ac mae lle i wella tryloywder y trefniadau 8

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar newidiadau mewn gwasanaethau lle mae'n ystyried bod hynny'n briodol, ond mae diffyg tryloywder o ran rhai agweddau ar drefniadau llywodraethu yn cyfyngu ar allu rhanddeiliaid i ymgysylltu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau 9

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i fonitro'r modd gaiff prosiectau eu cynnal, ac effaith hynny wedyn ar gyllidebau, ond mae'n cydnabod yr angen i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro effaith ehangach y newidiadau mewn gwasanaethau 10

Mae'r Cyngor yn parhau i ddysgu o'i brofiadau o ran cynnal prosiectau newid i gryfhau ei drefniadau llywodraethu 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 ‘Mae llywodraethu yn ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, i’r bobl cywir, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae’n cynnwys y systemau a phrosesau, y diwylliannau a’r gwerthoedd sy’n cyfeirio a rheoli cyrff cyhoeddus, y rhai y maent yn atebol iddynt, y rhai y maent yn ymgysylltu â nhw a, lle bo hynny’n briodol, y rhai a ddefnyddir i arwain eu cymunedau’.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol ar gyfer stiwardio arian cyhoeddus yn effeithiol a pharhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon y gellir ymddiried ynddynt. Mae’r hinsawdd ariannol bresennol a setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu bod pob cyngor yn debygol o barhau i orfod gwneud penderfyniadau ynghylch trefniadau a lefel cyflenwi gwasanaethau i’r dyfodol. Mae’n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio sicrhau gwelliant yn barhaus. Caiff newidiadau bach, cynyddol wrth gyflenwi gwasanaethau eu gwneud ar lefel rheolaethol a gweithredol fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau arferol, gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da gyda chymorth cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau. Mae penderfyniadau o’r fath yn aml yn ddadleuol, yn achosi cryn dipyn o ddiddordeb lleol ac yn gallu effeithio’n sylweddol ar yr unigolion a’r grwpiau dan sylw.

3 O Ebrill 2016, mae’n rhaid i gynghorau gydymffurfio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) a’r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Mae’r Canllawiau Statudol yn nodi: ‘Gyda’i gilydd, bwriedir i’r saith nod llesiant a’r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy’n diwallu anghenion y presennol heb beryglu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain’.[2] Mae’r ddeddfwriaeth hon yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd llywodraethu effeithiol o ran cyflawni nodau llesiant.

4 Mae ffocws yr adolygiad hwn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Trefol Merthyr Tudful (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau. Rydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid sylweddol o ran cyflenwi gwasanaethau a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiad y sawl sy’n defnyddio’r gwasanaethau hynny yn allanol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i’r modd gaiff y gwasanaeth ei gyflenwi, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

[1] CIPFA/SOLACE, Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith 2007

[2] **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllaw Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015,** Llywodraeth Cymru.

5 Mae'r adolygiad hwn yn defnyddio fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol' fel safon priodol, ac yn darparu gwaelodlin i'r Cyngor fel sail ar gyfer cynllunio gwelliant pellach. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn y cyfnod Medi i Dachwedd 2016, edrychwyd ar agweddau o'r trefniadau gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag ystod o gynigion i newid gwasanaethau yn sylweddol er mwyn hysbysu ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newid mewn gwasanaethau. Roedd yr enghreifftiau o newidiadau mewn gwasanaethau a edrychwyd arnynt yn cynnwys:

- Cynyddu'r taliadau ar gyfer gwastraff swmpus domestig;
- Cynyddu'r taliadau ar gyfer casglu gwastraff masnachol;
- Cynyddu'r tâl am gasglu gwastraff swmpus;
- Caeau Chwaraeon – cynyddu'r taliadau;
- Gwasanaethau Profedigaeth – cynyddu'r taliadau; a
- Cartref i'r henoed – cynyddu'r tâl safonol.

Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o'r penderfyniadau i newid gwasanaethau, ond yn hytrach eu defnyddio fel enghreifftiau i dynnu ohonynt ac i ddangos sut mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau mewn perthynas â newid mewn gwasanaethau.

6 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi datblygu fframwaith clir ac effeithiol ar gyfer sicrhau newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau ond bod cyfleoedd i gryfhau trefniadau ymhellach.

# Cynigion ar gyfer gwella

Ffigur 1: cynigion ar gyfer gwella

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| Gellid cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy gyflwyno mwy o dryloywder drwy: | |
| P1 | Cyhoeddi blaen raglen waith i'r Cabinet sy'n cynnwys manylion am gynigion arfaethedig ar gyfer newid mewn gwasanaethau sydd i'w trafod; a |
| P2 | Sicrhau bod pwyllgorau craffu yn cael y cyfle i benderfynu os ydynt am graffu ar newidiadau mewn gwasanaethau a gynigir, gan gynnwys caniatáu amser digonol yn y prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn i gynigion gael eu hystyried mewn ffordd ystyrlon. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor weledigaeth glir a set o egwyddorion yn sail i'w ddulliau newid gwasanaethau, sy'n gysylltiedig â'r gwaith o wireddu ei flaenoriaethau

7 Mae'r Cyngor wedi datblygu gweledigaeth i'w rhaglen newid sef 'Galluogi ein Cwsmeriaid i fod yn hunan-gynhaliol drwy gofleidio newid yn gorfforaethol a symud tuag at fod yn Awdurdod Lleol cynaliadwy, cadarn tra llwyddiannus'. O gydnabod bod angen datblygu dull gwahanol o reoli gostyngiadau yn y gyllideb, mae'r Cyngor wedi datblygu dull lle mae Cynllun Model Gweithredu (OMD) yn sail i sawl ffrwd waith. Mae'r OMD yn cynnig datganiad arweiniol, egwyddorion a disgwyliadau ynghylch sut fydd y Cyngor yn gweithredu.

8 Mae datganiad arweiniol OMD y Cyngor yn nodi 'rydym yn awdurdod cyhoeddus arloesol sy'n uchelgeisiol, sy'n cael ein harwain gan ein cwsmeriaid ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'. Mae'r OMD hefyd yn cynnwys yr wyth egwyddor isod, ac un ohonynt yn ymwneud ag alinio'r gyllideb gyda blaenoriaethau allweddol:

- Gwrando ar ein rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw
- Cyfathrebu clir
- Cofleidio technoleg ddigidol
- Canolbwyntio ar y blaenoriaethau a'r canlyniadau allweddol
- Gweithredu'r strategaeth yn gyson ac amserol
- Mae pawb yn atebol
- Alinio'r gyllideb gyda blaenoriaethau allweddol
- Hybu annibyniaeth

9 Mae nifer o 'ddisgwyliadau gweithredol' ynghlwm wrth bob un o'r egwyddorion. Er enghraifft, i'r egwyddor 'Gwrando ar ein rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw', y disgwyliadau gweithredol yw 'y bydd anghenion ein cwsmeriaid yn llywio'r math o wasanaethau a gynigiwn' a 'byddwn yn esbonio'r glir yr opsiynau ar gyfer cyswllt cwsmeriaid i wahanol grwpiau o gwsmeriaid'.

10 Mae gan y Cyngor bum ffrwd waith ar gyfer 2016-17:

- Ailddyluniad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- Gwasanaeth i gwsmeriaid
- Caffael
- Gofal Cymdeithasol a Chefnogi Pobl
- Gweithio ar y cyd â chynghorau cyfagos

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newid mewn gwasanaethau wedi'u diffinio'n glir ac yn ddealladwy

11 Mae rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â datblygu a phenderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau yn glir ar y cyfan, ac y mae swyddogion ac aelodau yn eu deall.
Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i helpu darparu ei raglen newid, gyda chylch gorchwyl clir.

12 Rôl Bwrdd Rhaglen Rheoli Newid y Cyngor yn gryno yw 'llywodraethu a chyfeirio Rhaglen Rheoli Newid Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) o fewn y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Cyngor.' Mae gan y Cyngor Grŵp Llywio Rheoli Newid a'i rôl yw 'herio a monitro rhaglenni, prosiectau a gweithredoedd sydd wedi'u cymeradwyo dan gyfarwyddyd Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb[3] y Rhaglen'.

13 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno gweithdai anffurfiol i'r Cabinet, y mae Prif Swyddogion hefyd yn eu mynychu, i herio cadernid achosion busnes cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Tîm Newid Busnes sy'n cefnogi rheolwyr gwasanaeth wrth iddynt gyflwyno opsiynau ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau. Yn ystod ein hadolygiad, dangosodd uwch swyddogion ac Aelodau ddealltwriaeth dda o'u rolau ac o rolau'r fforymau amrywiol sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu Rhaglen Newid y Cyngor.

14 Mae'r Cyngor wedi dechrau ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf LlCD) wrth benderfynu ar newidiadau mewn gwasanaethau drwy adolygu ei drefniadau ar gyfer cynnwys asesiad o effaith ar gynaliadwyedd mewn adroddiadau ffurfiol.
Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi datblygu ei dempled cynllunio busnes i gynnwys ystyriaeth o'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan Ddeddf LlCD, ac wedi cynnal sesiynau hyfforddi ar y Ddeddf i Aelodau a Swyddogion.

[3] Rhaglen Rheoli Newid Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio. Fersiwn Rhif 1.3, Awst 2016

## Tra bod y Cyngor yn gallu dangos bod opsiynau wedi'u gwerthuso'n fanwl ar gyfer rhai prosiectau newid gwasanaethau, nid yw Aelodau bob amser yn derbyn ystod eang o opsiynau, ac mae lle i wella tryloywder y trefniadau

15 Edrychasom ar nifer o achosion busnes mewn adroddiadau yn ymwneud â ffrydiau gwaith 'Cyfleoedd Uniongyrchol' 2015-16 a 'Cynhyrchu Incwm ac Adennill Costau' 2016-17 y Cyngor. Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd i bwyllgorau craffu'r Cyngor mewn perthynas â'r 'cyfleoedd uniongyrchol' yn cynnwys yr achosion busnes hynny a oedd wedi'u derbyn a'u gwrthod gan y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Canfuom fod yr achosion busnes a gyflwynwyd i'r pwyllgor craffu a'r Cabinet weithiau yn cynnwys ystod gyfyngedig o opsiynau, ynghyd â thystiolaeth gyfyngedig o'r meini prawf a ddefnyddiwyd a'r dystiolaeth a ystyriwyd wrth benderfynu ar opsiynau.

16 Darparwyd enghreifftiau mwy diweddar i ni o gynigion i newid gwasanaethau â ffocws mewnol a ategwyd gyda gwerthusiadau opsiynau manylach. Roedd yr enghreifftiau hyn yn trafod cynnig i adleoli depo, a chynnig i sicrhau bod 'Cylchgrawn' y Cyngor yn adennill ei gostau. Roedd yr enghreifftiau hyn yn cynnwys ystod o opsiynau, a gwybodaeth fanwl i ategu'r opsiynau hynny yn ogystal ag esboniad cliriach o'r meini prawf y gwerthuswyd yr opsiynau yn eu herbyn.

17 Mae'r Cyngor wedi datblygu ymhellach ei dempled gwerthuso cynlluniau busnes/opsiynau, ac mae bellach yn rhoi sylw i ofynion Deddf LlCD.

18 Mae cynigion i newid gwasanaethau yn destun craffu a herio ar sawl lefel gan gynnwys Grŵp Llywio Rhaglen Newid y Cyngor, Bwrdd Rhaglen Rheoli Newid a hefyd mewn Gweithdai Cabinet anffurfiol y mae Prif Swyddogion hefyd yn eu mynychu. Nid yw pwyllgorau craffu'r Cyngor yn cyfranogi'n systematig yn y broses newid gwasanaethau, er bod rhai enghreifftiau lle'r oedd cynigion i newid gwasanaethau yn destun craffu ffurfiol.

19 Unwaith bod Achosion Busnes wedi'u gwerthuso fel rhan o drefniadau rheoli newid y Cyngor, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a Swyddog Monitro, maent yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet/Cyngor. Mae cyfle i aelodau craffu alw i mewn penderfyniad a wnaed gan y Cabinet i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu priodol, cyn rhoi'r penderfyniad ar waith. Mae'r Pwyllgorau Craffu yn penderfynu ar eu rhaglenni gwaith eu hunain. Mae cyfleoedd i gadeiryddion craffu fod yn ymwybodol o gynigion arfaethedig drwy fynychu cyfarfodydd rheoli adrannol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniant hwn yn dryloyw i'r cyhoedd, nid yw'n cynnwys aelodau eraill o bwyllgorau craffu ac nid yw'n rhoi'r cyfle i aelodau o'r pwyllgorau craffu benderfynu pa gynigion yr hoffent graffu arnynt cyn i benderfyniad gael ei wneud.

## Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar newidiadau mewn gwasanaethau lle mae'n ystyried bod hynny'n briodol, ond mae diffyg tryloywder o ran rhai agweddau ar drefniadau llywodraethu yn cyfyngu ar allu rhanddeiliaid i ymgysylltu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau

20 Mae'r Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi gweithredu ar ganlyniadau ymgynghoriad. Mae'r penderfyniad (Mai 2016) i beidio â symud ymlaen gyda chynnig i ddileu holl fuddsoddiad yn narpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid statudol yng Nghlwstwr Gogledd y Fwrdeistref Sirol yn dilyn ymgynghoriad yn enghraifft ddiweddar o hyn. Mae yna hefyd eitem sefydlog ar Agenda Grŵp Llywio'r Rhaglen Newid ar 'Ymgynghoriad a Chyfathrebu Cyhoeddus - Diweddariad'.

21 Nid yw'r Cyngor bob amser yn ymgynghori ar gynigion unigol i newid gwasanaethau. Er enghraifft, ni fu ymgynghoriad gyda'r cyhoedd wrth baratoi achosion busnes mewn perthynas â'r ffrydiau gwaith Cynhyrchu Incwm ac Adennill Costau a Chyfleoedd Uniongyrchol y buom yn eu harchwilio. Er hynny, bu peth ymgynghoriad ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo codiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau (ffrwd waith Cynhyrchu Incwm ac Adennill Costau). Roedd y Cyngor yn cydnabod yr angen i gryfhau'r dull hwn, a bellach mae Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgynghori Grŵp Llywio'r Rhaglen Newid yn adolygu achosion busnes i benderfynu os oes angen ymgynghori, ac os felly, pa ddull y dylid ei fabwysiadu.

22 Mae cyfleoedd eraill i'r cyhoedd ymgysylltu o ran gwneud penderfyniadau ar newidiadau mewn gwasanaeth, er enghraifft, mae cyfle i'r cyhoedd wneud cais i annerch pwyllgorau craffu a hefyd i gyflwyno safbwyntiau ar destunau sy'n cael eu hystyried. Mae rhaglen waith craffu gynhwysfawr ar gael ar wefan y Cyngor ar gyfer 2016-17 sy'n cynnwys yr eitemau i'w hystyried ymhob pwyllgor ynghyd â disgrifiad o bob eitem. Mae'r Cyngor hefyd yn gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, ond nid yw'n gwe-ddarlledu cyfarfodydd o'r Cabinet neu bwyllgorau eraill fel ei bwyllgorau craffu.

23 Mae elfennau eraill o drefniadau'r Cyngor yn llai tryloyw ac felly'n cyfyngu o bosibl ar gyfleoedd i randdeiliaid ymgysylltu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, ni chyhoeddir blaen raglen waith y Cabinet, sydd o bosibl yn cyfyngu ar allu'r cyhoedd ac aelodau anweithredol i fod yn ymwybodol o benderfyniadau arfaethedig mewn perthynas â newid mewn gwasanaethau. Yn ogystal, mae'r cofnodion sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer rhai newidiadau mewn gwasanaethau yn amrywio o ran ansawdd a manylion ystyrlon. Er enghraifft, mae cyfarfodydd perthnasol o'r Cabinet a Phwyllgorau Craffu lle ystyriwyd achosion busnes 'Cyfleoedd Uniongyrchol' yn fyr. Nid oedd cofnodion y cyfarfod Cabinet perthnasol yn nodi'r penderfyniadau penodol a wnaed mewn perthynas â phob un

o’r cynigion/achosion busnes unigol o fewn yr adroddiad, sy’n cyfyngu o bosibl ar allu’r cyhoedd i ddeall pa benderfyniadau a wnaed a’r rhesymau am hyn.

## Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i fonitro’r modd gaiff prosiectau eu cynnal, ac effaith hynny wedyn ar gyllidebau, ond mae’n cydnabod yr angen i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro effaith ehangach y newidiadau mewn gwasanaethau

24 Yn ein hadroddiad Cadernid Ariannol: Cynllunio Arbedion[4] nodwyd bod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i fonitro’r gwaith o ddarparu prosiectau newid a’r arbedion ariannol cysylltiedig a wireddir. Gwnaethom adrodd bod yr achosion busnes ar gyfer rhai cynigion arbed wedi ystyried yr effaith ar y cyhoedd, ond nad oedd hynny’n amlwg ar gyfer pob un o’r cynigion priodol.

25 Mae’r Cyngor wedi nodi nad yw’n monitro’n systematig effaith cynigion/ penderfyniadau arbed penodol i newid gwasanaethau ar y cyhoedd ac mae’n cydnabod bod angen iddo gryfhau ei drefniadau. Mae’r adroddiad i Bwyllgor Craffu[5] – **Adroddiad Perfformiad Craffu:  Performance Report: Cymorth Trefniadol – Strategaeth Newid Busnes** yn nodi mai un o’r gwersi a ddysgwyd ac yr oedd yn ‘gweithredu arno’ oedd “Mwy o bwyslais ar, ac adnabod yn gynnar fanteision/anfanteision prosiectau a sut maent yn effeithio ar Strategaethau Corfforaethol”. Mae’r Cyngor yn bwriadu symud i fonitro’r manteision/anfanteision sy’n codi o benderfyniadau i newid gwasanaethau yn erbyn y blaenoriaethau yn Strategaethau ar Un Dudalen y Cyngor drwy ei Fwrdd Perfformio. Byddai craffu wedyn yn ystyried canlyniadau trafodaethau’r Bwrdd Perfformio; fodd bynnag, megis dechrau y mae’r cynlluniau hyn.

26 Mae’r Cyngor yn asesu effaith posibl newidiadau mewn gwasanaethau ar y grwpiau sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig drwy gynhyrchu asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb (AEG).  Mae angen i swyddogion hefyd gynnwys y goblygiadau a nodwyd yn yr AEG yng nghorff adroddiadau a gyflwynir i’r Cabinet, gydag adran ar gyfer hyn yn nhempled yr adroddiad. Mae’r Rheolwr Risg a Chydraddoldeb Corfforaethol hefyd yn sicrhau ansawdd pob AEG drafft cyn i’r fersiwn derfynol ymddangos mewn adroddiadau i’r Cabinet.

[4] Cyhoeddwyd Chwefror 2017

[5] Pwyllgor Craffu Llywodraethu, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol, 8 Tachwedd 2016

## Mae’r Cyngor yn parhau i ddysgu o’i brofiadau o ran cynnal prosiectau newid i gryfhau ei drefniadau llywodraethu

27 Mae’r Cyngor wedi parhau i fireinio ei drefniadau llywodraethu ar gyfer penderfynu a gwireddu newidiadau mewn gwasanaethau, gan adeiladu ar brofiadau blaenorol ac mewn ymateb i sbardunau allanol fel Deddf LlCD. Er enghraifft, mae’r Cyngor wedi ailstrwythuro ei gofrestr risg corfforaethol ac wedi addasu ei dempled cynllunio busnes er mwyn ystyried Deddf LlCD yn ogystal â chynnwys adran ar effaith ar gynaliadwyedd yn nhempledi adroddiadau.

28 Mae gweithdai i’r Cabinet, y mae’r Cabinet a Phrif Swyddogion yn eu mynychu, wedi’u cyflwyno i wella lefel yr her i achosion busnes a chynigion cysylltiedig i newid gwasanaeth cyn iddynt gael eu hystyried yn ffurfiol a’u penderfynu gan y Cabinet. Mae hyn yn adeiladu ar y newidiadau i drefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu a gwireddu prosiectau newid a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys creu’r Bwrdd Rhaglen Rheoli Newid a’r Grŵp Llywio Rheoli Newid.

29 Mae datblygiadau o ran meithrin diwylliant o hunanasesu a her hefyd wedi helpu’r Cyngor i adnabod meysydd i’w gwella yn ei drefniadau ar gyfer llywodraethu newid mewn gwasanaethau. Fel y nodwyd uchod, mae swyddogion wedi adnabod yr angen i gryfhau rôl craffu wrth wneud penderfyniadau ynghylch newid mewn gwasanaethau gan gynnwys y posibilrwydd o gael mwy o graffu cyn gwneud penderfyniadau, a hefyd i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro effaith newidiadau mewn gwasanaethau.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru